



**Gweithredu
dros Blant**

A young man with dark hair and a white t-shirt is smiling and looking towards a man with glasses and a black t-shirt. They are both wearing white earbuds and appear to be listening to music together. The background is a simple, light-colored wall with a dark grey pillow.

Lle i fwy Room for more

Dechreuwch eich siwrnai maethu gyda ni

Start your fostering journey with us

“ Newidiodd fy mywyd ar ôl bod gyda fy rhieni maeth. Mae’n gas gen i feddwl lle fyddwn i hebbyn nhw. ”



“ Being with my foster parents changed my life. Without them I’d hate to think where my life would be. ”

Heilo

Mae maethu plentyn yn rhywbeth anhygoel i'w wneud

Mae ein teuluoedd maeth yn newid bywydau. Mae'r bobl anhygoel yma – pobl fel chi – yn rhoi cariad, gofal a diogelwch i blant sydd wirioneddol eu hangen. Mae hyn yn hynod o bwysig i'r plant rydym yn eu cyfarfod, gan nad yw sawl un wedi cael dechrau gwyd i fywyd.

Cewch gyfle i ddarllen y gwahaniaeth anhygoel mae maethu'n ei wneud yn y pecyn hwn. Cewch hefyd gyfle i ddarganfod llawer o wybodaeth er mwyn eich helpu i ddechrau eich siwrnai maethu.

Sicrhau fod y siwrnai yn iawn i chi

Mae maethu yn brofiad gwerth chweil. Gall newid eich bywyd chi hefyd.

Rydym yn gwybod ei fod yn benderfyniad mawr ac rydym yn deall fod sefyllfa pawb yn wahanol. Cofiwch godi'r ffôn neu anfon e-bost atom os hoffech gael sgwrs, gofyn unrhyw gwestiwn neu darganfod rhagor.

Maethu yn Ne Cymru

01633 270422

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Maethu yng Ngogledd Cymru

01352 759597

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Amdanom ni

Rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc yn y DU gael plentyndod diogel a hapus.

Er mwyn i hyn ddigwydd rydym yn dibynnu ar bobl fel chi. Gallwn sicrhau fod plant yn cael dechrau da i fywyd gyda'ch help chi. Gallwn helpu i'w cadw'n ddiogel a helpu'r sawl sy'n cael amser anodd.

Y llynedd, roedd Gweithredu dros Blant wedi cefnogi mwy na 368,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd. Ond mae llawer mwy sydd angen ein help.

Dewiswch faethu gyda ni a gallwch roi cartref diogel a gofalgarn i blentyn sy'n agored i niwed, yn ogystal â rhoi'r anghenion sylfaenol sydd angen arnynt i ffynnu.

Hello

Fostering a child is an incredible thing to do

Our foster families transform lives.

These wonderful people – people just like you – give children the love, care and stability they desperately need. This is so important for the children we meet, who haven't always had the best start in life.

You'll read about the incredible difference fostering makes in this pack. You'll also find lots of information to help you start your fostering journey.

Getting it right for you

Fostering is really rewarding. It can be life-changing for you, too.

We know it's a big decision and understand that everyone's situation is different. We're at the end of the phone (or email) if you want to have a chat, ask any questions or find out more.

Fostering in South Wales

01633 270422

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Fostering in North Wales

01352 759597

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

About Action for Children

We believe that every child and young person in the UK should have a safe and happy childhood.

To make this happen we rely on people like you. With you by our side we can make sure children get the best start in life. We can step in to keep them safe and help those who are having a really difficult time.

Action for Children supported more than 368,000 children, young people and families last year. But there are lots more who need our help.

Choose to foster with us and you could give a vulnerable child a safe and loving home, and the foundations they need to thrive.

Maethu gyda ni

Rydym ni'n dod o hyd i gartrefi diogel a gofalgar ar gyfer plant sy'n methu byw gyda'u teuluoedd.

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn unigryw. Rydym yn gwybod bod ein rhieni maeth yn unigryw, hefyd. Dyma pam ein bod yn ceisio dod o hyd i'r ffit gorau rhwng plentyn a theulu. Mae gwneud hyn yn adeiladu perthynas hirhoedlog.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant rydym yn eu cyfarfod wedi bod trwy gyfnod anodd. Felly mae'n bwysig ein bod yn eich darparu

â'r sgiliau priodol i ofalu amdanynt. Mae gennym galendr hyfforddiant, sy'n cynnwys llawer o gefnogaeth ymarferol ac emosiynol. Rydym hefyd yma i helpu drwy'r dydd a'r nos. Byddwch yn cael ffoedd a threuliau hefyd, fel y gallwch fforddio rhoi'r gefnogaeth orau bosib i'ch plentyn.

“ Mae'n ail gyfle i fod yn rhan o deulu. Rwy'n ffodus iawn bod gen i fy nheulu maeth ac mai nhw fydd fy nheulu bob amser. ”



Fostering with us

We find safe and loving homes for children who can't live with their families.

Every child and young person is unique. We know our foster parents are, too. This is why we always find the best possible match between a child and a family. Doing this builds strong relationships that last.

Most of the children we meet have been through a difficult time. So it's important we give you the skills to look after them. We have a training calendar, which

includes lots of practical and emotional support. We're also here to help at any time of the day or night. You'll get fees and expenses, too, so you can afford to give your child the best possible support.

“ It's a second chance to be part of a family. I'm really lucky that I have my foster family and that they will always be my family. ”

Gwahanol fathau o ofal maeth

Er ein bod yn dod o hyd i gartrefi i blant o bob oed, mae'r rhan fwyaf o'r plant rydym yn eu cefnogi dros wyth oed.

Rydym yn chwilio am rieni maeth sy'n gallu rhoi cartref hirdymor i blant nes eu bod yn barod i fyw ar eu pen eu hunain. Mae angen pobl arnom hefyd a all gefnogi plant am gyfnodau byrrach. Mae'r cymorth hanfodol hwn yn cynnig egwyl i'n rhieni maeth amser llawn am ychydig oriau, diwrnod, penwythnos neu dros y gwyliau.

Lle bynnag y bo modd, bydd awdurdod lleol yn ceisio cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd. Os oes gennych fwy nag un ystafell sbâr efallai y byddwch yn gallu maethu mwy nag un plentyn.



Different types of foster care

Although we find homes for children of all ages, most of the children we support are over eight.

We're looking for foster parents who can give children a long-term home until they're ready to live on their own. We also need people who can support children for shorter breaks. This vital support covers our full-time foster parents for a few hours, a day, a weekend or over the holidays.

Wherever possible, a local authority will try to keep brothers and sisters together. If you have more than one spare room you might be able to foster more than one child.



Rhiant a phlentyn

Rydym weithiau angen teuluoedd maeth sy'n gallu helpu i ofalu am rieni sydd â phlant eu hunain. Mae'r math yma o faethu fel arfer yn para rhwng 3 a 18 mis. Byddwch yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i roi cymorth i'r rhieni gyda'u sgiliau magu plant.



Parent and child

We sometimes need foster families to look after parents who have their own children. This type of fostering usually lasts between three and 18 months. You'll work with professionals to help these mums or dads with their parenting skills.




Plant gydag anableddau

Rydym hefyd yn chwilio am rieni maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad i gefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol. Byddwch yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth arbenigol yn seiliedig ar anghenion eich plentyn.



Children with disabilities

We're also looking for foster parents who have the skills and experience to support children who need extra help. You'll get specialist training and supervision based on your child's needs.



Beth mae ein rhieni maeth yn eu dweud amdanom ni:



“Y rheswm y gwnaethon ni ddewis Gweithredu dros Blant oedd oherwydd eu bod nhw’n credu yn yr ochr therapiwtig o ofal, ac maen nhw wedi profi hyn dro ar ôl tro. Rydym wedi mwynhau digonedd o hyfforddiant sydd wedi helpu gyda’n maethu o ddydd i ddydd. ”

“Rydym wedi derbyn cefnogaeth dda iawn gan Gweithredu dros Blant dros yr 20 mlynedd o faethu. ”



“Mae’r gwasanaeth gan Gweithredu dros Blant yn helpu i wneud ein swydd yn haws wrth wybod bod cymorth 24/7 ar gael ar gyfer unrhyw faterion posibl. ”



What our foster parents say about us:



“The reason we chose Action for Children is because of their belief in the therapeutic side of care, which they have proved time and time again. We’ve enjoyed an abundance of training that really has helped in our day-to-day fostering. ”

“We’ve been well supported by Action for Children over the 20 years of our fostering. ”



“The service from Action for Children helps to make our job easier knowing they are there 24/7 to help with any issues that arise. ”



Galla i faethu?

Mae'n debyg mai 'cewch' yw'r ateb!

Er mwyn maethu gyda ni bydd angen ystafell sbâr arnoch. Bydd hefyd angen i chi fod dros 21 oed (does dim uchafswm oed). Does dim ots os ydych yn berchen neu'n rhentu eich cartref. Does dim angen i chi fod yn rhiant er mwyn maethu chwaith.

Mae sefydlogrwydd yn hanfodol, felly os ydych mewn perthynas, rydym yn gofyn bod honno'n berthynas sefydlog ers dros dwy flynedd. Bydd hefyd angen i chi fod yn ddiogel yn ariannol.

Byddwn yn mynd dros bopeth ar ddechrau eich siwrnai maethu.

Cwestiynau Cyffredin

Galla i faethu os yw fy mhlant fy hun gartref?

Mae gan lawer o'n rhieni maethu blant gartref. Yn ystod yr asesiad, mi fyddwn yn trafod sut byddwch yn diwallu anghenion eich plant a'ch plentyn maeth.

Mae angen gofod ar bob plentyn felly mae ystafell wely ar wahân yn hanfodol. Os yw eich plant eich hunain yn ifanc

iaawn, efallai y byddwn yn gofyn i chi aros am dipyn cyn dechrau'r asesiad. Cofiwch gysylltu os ydych yn ansicr.



Galla i faethu os ydw i'n hoyw?

Cewch, wrth gwrs. Rydym yn croesawu rhieni maeth o bob cefndir. Gallwch fod yn sengl, mewn partneriaeth sifil, wedi priodi neu'n byw gyda phartner. Mae'n bwysig i ni bod ein rhieni maeth yn adlewyrchu strwythurau teuluol y gymdeithas.

Galla i faethu os nad oes gen i blant?

Cewch. Mi fyddwn yn trafod eich profiadau gyda phlant, eich sgiliau a'ch rhinweddau. Y peth pwysicaf yw eich gallu i ddiwallu anghenion plentyn.

Can I foster?

The answer is probably 'yes'!

To foster with us you'll need a spare bedroom. You'll also need to be over 21 (there isn't an upper age limit). It doesn't matter whether you own or rent your home. You don't need to be a parent to foster, either.

Stability is essential so we ask that – if you're in a relationship – it's been stable for at least two years. You'll also need to be financially secure.

We'll go through everything at the start of your fostering journey.

FAQs

Can I foster if my own children are at home?

Lots of our foster parents have children at home. During the assessment, we'll talk about how you'll meet the needs of your own children and a foster child.

Every child needs space so a separate bedroom is a must. If your own children are very young, we might ask you to wait



a while before we start the assessment. Please get in touch if you're unsure.

Can I foster if I'm gay?

Yes, of course. We welcome potential foster parents from all backgrounds. You can be single, in a civil partnership, married or living with a partner. For us, it's really important that our foster parents reflect society's family structures.

Can I foster if I don't have children?

Yes. We'll talk to you about your experiences with children, your skills and qualities. The most important thing is your ability to meet a child's needs.

Galla i faethu os ydw i'n rhentu fy nghartref?

Does dim ots os ydych yn berchen neu'n rhentu eich cartref. Ond – os ydych chi'n rhentu – bydd rhaid cael caniatâd eich perchennog. Bydd hefyd angen i ni wneud gwiriadau diogelwch ar y cartref. Bydd angen i chi roi gwybod i'ch perchennog am y rhain. Mae rhai o'n rhieni maeth yn derbyn budd-dal tai. Mae'n werth gwirio gyda'ch awdurdod lleol er mwyn darganfod os bydd maethu yn effeithio'ch cais.

Galla i faethu os ydw i'n byw ar fy mhen fy hun?

Mae chwarter o'n rhieni maeth yn byw ar eu pen eu hunain. Mae eich rhwydwaith cymorth yn hynod o bwysig, felly byddwn yn trafod eich teulu, ffrindiau a'ch cymdogion gyda chi. Byddwn hefyd yn cynnig digonedd o gymorth. Mae hyn yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol goruchwyllo dynodedig, cefnogaeth dros y ffôn 24/7, grwpiau a system cyfeillio.

“Ges i fy nghrosawu ac fy nhrin fel mab iddyn nhw, ac mae hynny wedi newid fy mywyd.”

Plentyn maeth

Eich ymrwymiad

Bydd angen i chi fod o gwmpas ermwyn i'r person ifanc allu setlo ac ar gael i fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant. Ond mae bron i 38% o'n rhieni maeth yn mynd nôl i weithio ar ôl cael eu cymeradwyo. Cyn belled â bod rhywun yna i'r person ifanc, mae'n bosib. Byddwn yn trafod sut bydd hyn yn gweithio – a'ch rhwydwaith cymorth – yn ystod yr asesiad.

38%

o'n rhieni maeth yn mynd nôl i weithio ar ôl cael eu cymeradwyo

Your commitment

You'll need to be around to settle a young person in and go along to meetings and training. But almost 38% of our foster parents go back to work after being approved. So long as someone is always there for the young person, it's possible. We'll talk about how this might work – and your support network – during the assessment.

38%

of our foster parents return to work after being approved

“Taking me in, treating me like their son, has changed my life.”

Foster child

Can I foster if I rent my home?

It doesn't matter if you own or rent your home. But – if you are renting – you'll need to get your landlord's permission. We'll also need to do some home safety checks. You'll need to let your landlord know these. Some of our foster parents get housing benefit. It's worth checking with your local authority to find out if fostering will affect your claim.

Can I foster if I live by myself?

A quarter of our foster parents live by themselves. Your support network is really important, though, so we'll chat to you about family, friends and neighbours. We offer lots of help, too. This includes a dedicated supervising social worker, 24/7 phone support, groups and a buddy system.

Yma i chi

Rydych chi'n gwneud rhywbeth anhygoel ac rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu amdanoch chi.

Eich lles

Mae eich iechyd a'ch lles yn hynod o bwysig. Mae teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn bwysig iawn.

Mae gan ein rhieni maeth weithiwr cymdeithasol goruchwylio dynodedig. Byddant yn rhoi help a chymorth un i un i chi pryd bynnag fo angen. Gallwch hefyd gysylltu â ni unrhyw adeg o'r dydd neu nos.

Rydym yn cynnal grwpiau cymorth rheolaidd hefyd. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i chi ddod ynghyd a chwrrd â phobl eraill sy'n gwneud yr un peth. Mae ein teuluoedd maeth yn dweud bod y cyfarfodydd hyn yn gwneud iddynt deimlo fel rhan o deulu mawr.

Mae gan rhan fwyaf o'n gwasanaethau system cyfeillio lle mae rhieni maeth newydd yn cael eu paru â phobl mwy profiadol.

Hefyd, fel rhiant maeth Gweithredu dros Blant, bydd modd i chi ddefnyddio ein pecyn lles a sicrwydd iechyd i chael gostyngiadau ar nifer o frandiau gwych.



Eich arian

Rydym eisiau tawelu eich meddwl ynghylch fforddio i ofalu am eich plentyn. Byddwch yn derbyn ffioedd a threuliau er mwyn cefnogi eich hunan a'r plentyn sy'n byw gyda chi.

Eich hyfforddiant

Mae pawb sy'n maethu gyda ni yn dilyn ein calendr hyfforddiant blynyddol. Mae sesiynau'n cynnwys pethau hanfodol megis diogelwch a datblygiad plentyn, yn ogystal â pholisïau a dulliau gweithredu. Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant arbenigol ac yn egluro rhai o'r materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu, megis bwlio ar-lein a diwylliant gang. Byddwn yn darparu syniadau, adnoddau ac offer arbenigol i chi.



Here for you

You're doing an incredible thing and we want to make sure you're properly looked after.

Your wellbeing

Your health and wellbeing are so important. Feeling valued really matters.

All our foster parents have a dedicated supervising social worker. They'll give you one-to-one help and advice whenever you need it. You can also get in touch with us at any time of the day or night.

We run regular support groups, too. These give you the chance to get together and meet people doing the same amazing thing. Our foster families tell us that these meet ups make them feel part of a bigger family.


Most of our services have a buddy system where new foster parents are paired up with more experienced people.

Also, as an Action for Children foster parent, you'll be able to use our Health Assured wellbeing package and get discounts on lots of great brands.



Your training

Everyone who fosters with us follows our annual training calendar. Sessions cover the essentials, like child safety and development, as well as policies and procedures. We also run specialist training and explain some of the issues young people deal with, like bullying on social media and gang culture. You'll be given ideas, resources and specialist tools to help you.



Your money

We want you to know that you can afford to care for a child. You'll get fees and expenses to support yourself and the children living with you.




You'll get fees and expenses so that you can afford to foster a child.

Byddwch yn cael fffioedd a threuliau fel y gallwch fforddio i faethu plentyn.

Amseroedd hapus

Mae creu atgofion hapus yn hynod o bwysig – i chi a'r plentyn y byddwch yn gofalu amdano. Byddwn yn trefnu diwrnodau allan llawn hwyl yn ystod gwyliau ysgol, gan roi cyfle i chi a'ch plant roi cynnig ar rywbeth gwahanol.



Happy times

Making happy memories is so important – both for you and the children you're looking after. We organise fun days out during the school holidays, giving you and your children the chance to try something different.





Stori Lissie

Cafodd Lissie ei hysbrydoli i fod yn rhiant maeth gan ei Mam. Sylwodd ar y gwahaniaeth anhygoel mewn plant bregus o gael cartref maethu diogel a gofalgar – ac mae hi nawr yn dilyn yng nghampau ei Mam.

Roedd gweld yr effaith a gafodd fy Mam ar blant yn ysbrydoliaeth i mi. Dwi'n meddwl bod rhieni maeth yn bwysig am gymaint o resymau. Maen nhw'n darparu sefydlogrwydd ac yn cynnig cartref llawn gofal. Mae hefyd yn gyfrifoldeb arnon ni i roi pethau i'r plant nad oedd eu rhieni genedigol wedi llwyddo i'w gwneud ac efallai dod o hyd i lwybr newydd iddyn nhw ei ddilyn.

“ Mae pob person ifanc yn haeddu cael cefnogaeth, cariad a chartref sefydlog. ”

Pan dwi'n clywed am y pethau mae'r plant a'r bobl ifanc wedi eu wynebu – diffyg gofal, cam-drin, trais – rwy'n torri fy nghalon. Ond dwi wedi gweld y trawsnewid sy'n gallu digwydd.

Gyda nifer o'r bobl ifanc sy'n dod mewn i ofal maeth, mae pethau syml fel canmoliaeth yn cael effaith anferth. Dydyn nhw ddim wedi arfer â hynny. Dydyn nhw ddim yn gwybod sut i

“ Mae gweld y gwahaniaeth yn y bobl ifanc sydd wedi byw gyda fi yn anhygoel. Maen nhw'n darganfod eu hunain eto ac yn ffynnu, yn dod yn oedolion ifanc. ”

ymateb os ydyn nhw'n cael eu canmol am wneud rhywbeth yn dda.

Roeddwn i unwaith yn edrych ar ôl person ifanc nad oedd erioed wedi bwyta wrth y bwrdd. Roedd yn mynnu bwyta ei fwyd ar y llawr. Am y diwrnodau cyntaf, roeddwn i'n eistedd ar y llawr gydag ef oherwydd dyna oedd wedi arfer ei wneud. Ymhen tipyn, dyma gynnig lle iddo wrth y bwrdd. O hynny ymlaen roedd camau bach o ganmoliaeth yn gweithio. Roedd hyn yn rywbeth enfawr iddo ei wneud. Dydy'r bobl ifanc yma heb arfer agor yr oergell pan fyddan nhw'n llwglyd a chael hyd i rywbeth i'w fwyta.

Mae maethu yn fwy na bod yn rhiant; mae angen bod yn eiriolwr, yn gefnogwr, ac yn rhywun gall person ifanc ddiwynnu arno.

“ Ro'n i yno'n ddigon hir i mi deimlo fy mod gartref. ”

Lissie's story

Lissie was inspired to become a foster parent by her mum. She saw the incredible difference a safe and loving foster home made to vulnerable children – and is now following in her footsteps.

Seeing the impact mum had on children inspired me. I think foster parents are important for so many reasons. They provide stability and offer a loving home. It's also up to us to give children things that their birth families couldn't, and perhaps find them a new pathway to follow.

“ Every young person deserves to be supported, loved and have a stable home. ”

When I learn about some of the things these children and young people have been through – neglect, abuse, violence – it's heartbreaking. But I've seen the transformation that can take place.


With a lot of the young people that come into foster care, simple things like praise can have such a deep impact. It's something they're just not used to getting. They don't know how to react if they're given encouragement when they've done well.

“ Seeing the difference in the young people who have lived with me is incredible. They discover a new sense of self and flourish, becoming young adults. ”

I looked after one young person who had never eaten at a dining table. He insisted on having his dinner on the floor. For the first few days, I sat with him because that was what he was used to doing. After a while, we gently suggested sitting at the table. From that point it was small steps of encouragement. This was such a huge thing for him to do. For these young people to open the fridge and have food available when they're hungry isn't something they're used to, either.

Fostering isn't necessarily just being a parent; it's being an advocate, a supporter, and someone a young person can depend on.

“ I waited long enough for that sense of feeling like it was home. ”



Beth sy'n digwydd nesaf?

Diolch am ddarllen hyd yn hyn! Mae eich siwrnai maethu yn dechrau yma...

1 Sgwrs fer dros y ffôn

Y cam cyntaf yw sgwrs fer dros y ffôn. Byddwn yn gofyn am eich amgylchiadau a sut gall maethu weithio i chi. Dyma'r amser perffaith i ofyn unrhyw gwestiynau. Bydd hon yn sgwrs anffurfiol a fydd yn rhoi syniad gwell i chi os mai maethu yw'r peth cywir i chi.

2 Ymweld â'ch cartref

Yna, byddwn yn ymweld â chi (a'ch partner, os ydych mewn perthynas) yn eich cartref. Byddwn yn cael sgwrs am faterion ymarferol maethu. Mae hyn yn gyfle gwych i ddod i'ch nabod chi a'ch sefyllfa dipyn gwell. Ar ôl yr ymweliad, byddwn yn dod at ein gilydd ac yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.

3 Cwrs hyfforddiant Sgiliau Maethu

Mae ein holl ddarpar rieni maeth yn cael gwahoddiad i gwrs tri diwrnod Sgiliau Maethu. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys yr elfennau hanfodol, yn eich helpu i baratoi ar gyfer maethu ac yn codi cwestiynau y byddwn yn eu trafod yn ystod yr asesiad.

4 Llenwi ffurflen

Y cam nesaf yw llenwi ffurflen gais. Dyma sylfaen eich asesiad.

5 Yr asesiad

Byddwn yn ceisio cwblhau eich asesiad mewn pedwar i chwe mis. Byddwch yn cael ymweliadau rheolaidd gan weithiwr cymdeithasol a fydd yn asesu eich sgiliau i fod yn ofalwr maeth. Bydd angen cynnal gwiriadau sylfaenol hefyd, gan gynnwys gwiriad heddlu (DBS) a phrawf meddygol. Bydd hefyd angen geirdaon gan bobl sydd wedi eich nabod am o leiaf dair mlynedd, a chyflogwr presennol a blaenorol.

6 Cymeradwyaeth derfynol

Bydd eich asesiad yn cael ei gyflwyno i banel a fydd yn gwneud argymhelliad am eich addasrwydd i faethu. Ar ôl gwneud hyn, byddwn yn gofyn am gymeradwyaeth y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ein hasiantaeth. Cyn gynted ag y bydd y cais wedi'i gymeradwyo, byddwn yn dechrau chwilio am blentyn addas i chi.

What happens next?

Thanks for reading this far! Your fostering journey starts here...

1 A quick chat on the phone

The first step is a short phone call. We'll ask you about your circumstances and how fostering might work for you. It's the perfect time to ask us any questions. This is an informal chat that'll hopefully give you a better idea about whether fostering's right for you.

2 Visiting you at home

Next, we'll come and visit you (and your partner, if you're in a relationship) at home. We'll have a chat about the practicalities of fostering. This is a great opportunity to get to know you and your situation a bit better. After the visit, we'll get together and decide what happens next.

3 Skills to Foster training course

All our potential foster parents are invited to a three-day Skills to Foster course. The training covers the essentials, helps you prepare for fostering, and raises questions that we'll talk about during the assessment.

4 Filling in a form


The next step is to fill in an application form. This is the basis of your assessment.

5 The assessment

We'll try to complete your assessment in four to six months. You'll get regular visits from a social worker who'll assess your skills to be a foster parent. There are standard checks to go through, too, including a police check (DBS) and a medical. We'll also need references from people who have known you for three years, and a current or past employer.

6 Final approval

Your assessment will be presented to a panel who'll make a recommendation about your suitability to foster. Once this is done, we'll ask for approval from our agency decision-maker. We'll look into matching you and a child as soon as your application's approved.



Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel

Byddwn yn cadw eich manylion personol yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd eich gwybodaeth dim ond yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses ymgeisio ac ar gyfer ein hymchwil marchnata. Ni fyddwn byth yn gwerthu eich data i drydydd partïon.

Keeping your information safe

We'll keep your personal details safe and secure in line with General Data Protection Regulations (GDPR). Your information will only be used as part of the application process and for our own market research. We won't ever sell your data to third parties.

Safe and happy childhood



Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.

Plentyndod hapus a diogel

Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.



[/actionforchildren](#)



[@actnforchildren](#)



[@actionforchildreuk](#)

Rhifau elusen gofrestredig 1097940/
SC038092. Rhify Cwmni 4764232.
© Gweithredu dros Blant 2021. 1588.

Registered charity nos. 1097940/
SC038092. Company no. 4764232.
© Action for Children 2021. 1588.

Maethu yn Ne Cymru

01633 270422

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Maethu yng Ngogledd Cymru

01352 759597

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Fostering in South Wales

01633 270422

fostering.wales@actionforchildren.org.uk

Fostering in North Wales

01352 759597

fostering.wales@actionforchildren.org.uk